

**Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**  
**3 Tachwedd 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Jiwbili, Llangeitho**  
**Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,**  
**3 November 2025 at 8.00 pm at Jiwbili Hall, Llangeitho**

**Presennol/Present**

Cyng Gwilym Evans (Cadair/*Chair*), Gwenfair Owen, Paul Rooke, Beryl Evans, Dafydd Morse, Daniel Thomas, Ieuan Gwynne, Gerwyn Ebenezer & Cyng Rhodri Evans

**Ymddiheuriadau/Apologies** – Cyng/Cllr Sarah Evans, Emyr Jones, Myrddin James & Cyng Rhian Turner.

Croesawodd y Cadeirydd pawb i gyfarfod mis Tachwedd.

**Adroddiad yr Heddlu / Police Report**

Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad. Soniwyd bod yna nifer o lefydd yn cael ei torri mewn iddo unwaith eto yn yr ardal. Hefyd soniwyd bod yna nifer o gataiau ffermydd yn cael ei gadael ar agor gan adael yr anifeiliaid allan i'r ffordd. / *In the absence of the police no report was received. It was noted that there were a spite of burglaries taking place once again within the area. Also, it was noted that numerous farm gates were being left open which allowed animals to wonder onto the roads.*

**Datgan Diddordeb/Declaration of Interest** – Neb / *No one*

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of previous meeting**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Cyng Gwenfair Owen ac eiliwyd gan Cyng Paul Rooke.

*The minutes of the previous meeting were passed correct – proposed by Cllr Gwenfair Owen & seconded by Cllr Paul Rooke.*

**Materion vn codi o'r cofnodion/Matters arising from minutes**

- Cyng Myrddin James & Cyng Daniel Thomas wedi symud y biniau ail-gylchu, ar bwys Dolaeron, Llangeitho, ychydig nôl yn agosach i'r arwyddion / *Cllr Myrddin James & Cllr Daniel Thomas had moved the recycling bins, near Dolaeron, Llangeitho, slightly back closer to the signs*
- Cyng Gwilym Evans & Cyng Emyr Jones wedi trwsio'r ffens ar ddaear Gelli Angharad, Penuwch / *Cllr Gwilym Evans & Cllr Emyr Jones had repaired the fence on the land at Gelli Angharad, Penuwch.*
- Cwyn am gyflwr y ffordd lawr am Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA wedi'u basio i Arolygydd y Ffyrdd. / *Complaint about the condition of the road down to Pantyresgair, Penuwch, SY25 6RA has been passed to the Roads Inspector.*
- Llinellau gwyn ar groesffordd Glanwern, Penuwch, SY25 6RA dal ddim wedi'u ail-baentio / *White lines on the Glanwern crossroads, Penuwch, SY25 6RA have still not been repainted.*
- Diolchwyd i Cyng Beryl Evans am ei chymorth i lwytho'r cyfrifon ar gwefan y Cyngor Cymuned / *Thanks was given to Cllr Beryl Evans for her help in uploading the accounts to the Community Council's website.*
- Posterï wedi'u harddangos yn gofyn am grŵp o wirfoddolwyr i gynorthwyo a chadw llygad ar yr hen cysgodfan bws sydd wedi'u trawsnewid i lyfrgell. Trafodwyd y sefyllfa a chytunwyd i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf / *Posters had been*

*displayed asking for a group of volunteers to help and keep an eye on the old bus shelter that has been converted into a library. The situation was discussed and it was agreed to be discussed further at the next meeting.*

- *Llinellau gwyn ar cylchfan Llangeitho wedi'u ail-baentio / White lines on the Llangeitho roundabout have been repainted.*

### **Cyfrifon/Accounts**

- *Cyflog Clerc – Hydref £134.34 – Clerk salary for October £134.34*
- *Gwilym Evans £105.60 (Ad-daliad am ddenyddiau ffensio / Re-imbursed for fencing materials)*
- *Brian Bulman £260.00 (torri porfa / grass cutting)*
- *Praesept (3) £1,833.34 Precept (3)*

*Cytunwyd i'w talu ar gynnig Cyng Dafydd Morse ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans  
Payments to be made – proposed by Cllr Dafydd Morse and seconded by Cllr Beryl Evans*

### **Gohebiaeth/Correspondence**

- *Llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol, wedi'u dderbyn oddi wrth Ambiwylans Awyr Cymru / Letter of thanks for the financial support received from Wales Air Ambulance*
- *E-bost wedi'u dderbyn oddi wrth Daniel Thomas, Cadeirydd Neuadd Jiwibili yn gwahodd aelodau o'r Cyngor Cymuned i gyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Neuadd a gynhelir ar nos Lun 10 Tachwedd am 7 yr hwyr / E-mail received from Daniel Thomas, Chairman of Jubilee Hall, inviting members of the Community Council to the Hall's Annual General Meeting to be held on Monday, 10th November at 7 pm*

### **Cyngor Sir Ceredigion County Council**

- *Derbyniwyd e-bost oddi wrth Dafydd Rennie, Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn i'r Cyngor Cymuned gadarnhau perchnogaeth cysgodfannau bysiau, polion arosfannau, baneri bysiau yn ein cymuned. Trafodwyd y rhestr oedd wedi'u amgau efo'r e-bost a nodwyd nad oedd dim ohonynt yn berchnogaeth i'r Cyngor Cymuned. Gofynnir i'r clerc gysylltu nôl i'r Swyddog Trafnidiaeth yn cadarnhau y pedwar cysgodfan bws sydd yn ein perchnogaeth, sef, Stags Head, Sgwar Penuwch, Hen gysgodfan bws Tro Pair a Bro Gwynfil / An email was received from Dafydd Rennie, Transport Officer, Ceredigion County Council, asking the Community Council to confirm ownership of bus shelters, bus stop poles, and bus flags in our community. The list attached to the email was discussed, and it was noted that none of them are owned by the Community Council. The clerk was asked to contact the Transport Officer to confirm the four bus shelters that are in our ownership, namely, Stags Head, Penuwch Square, Old Tro Pair bus shelter, and Bro Gwynfil.*

### **Prosiect Waun Maenllwvd Project**

*Derbyniwyd e-bost oddi wrth clerc Cyngor Cymund Llanddewi Brefi yn cynnig nos Lun 17 Tachwedd 2025 neu nos Fawrth 18 Tachwedd 2025 ar gyfer cyfarfod yn Llanddewi Brefi, cytunwyd taw'r nos Lun oedd y noson orau / An email was received from the clerk of Llanddewi Brefi Community Council offering Monday evening, 17 November 2025 or Tuesday evening, 18 November 2025 for a meeting in Llanddewi Brefi; it was agreed that Monday evening was the best night.*

### **Caru'ch Cymuned 2025 Love Ceredigion**

Cais wedi cyrraedd y rownd terfynol a gynhelir yn Canolfan Lloyd Thomas, Campws Llambed, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar nos Iau 11 Rhagfyr 2025. Gofynnir i Cyng Daniel Thomas i gasglu'r lluniau a ddefnyddir yn y cais at ei gilydd a'i trosglwyddo i'r Cyngor er mwyn iddynt baratoi fideo byr o'r Gymuned. Enwebwyd y Cadeirydd, Clerc a Cyng Daniel Thomas i fynychu'r noson. Diolchwyd i Cyng Daniel Thomas am gynorthwyo. / *The application has reached the final round to be held at the Lloyd Thomas Centre, Lampeter Campus, University of Wales Trinity Saint David on Thursday, 11 December 2025. Cyng. Daniel Thomas was asked to collate the images used in the application and forward to the Council so that they can prepare a short video of the Community. The Chair, Clerk and Cllr Daniel Thomas were nominated to attend the evening. Cllr Daniel Thomas was thanked for assisting.*

### **Peiriant Diffib Rhydypany Defibrillator Machine**

Clerc wedi ceisio am beiriant diffib i'w ddodi yn ciosc Rhydypany. Cais wedi bod yn llwyddiannus i gynnwys Peiriant Diffib, Bocs pwrpasol i gadw'r peiriant, bateri a pads am 10 mlynedd. Clerc a Cyng Myrddin James i drafod y trydan efo'r teulu drws nesaf / *Clerk has applied for a defibrillator to be placed in the Rhydypany kiosk. The application has been successful to include a Defibrillator, a purpose-built box to store the machine, a battery, and pads for 10 years. Clerk and Cllr Myrddin James to discuss the electricity set up with the family next door.*

### **Un Llais Cymru/One Voice Wales**

Angen i'r Cyngor Cymuned gynhyrchu dogfen Bioamrywiaeth - 'Trosolwg Adran 6 Adroddiad Adran 6 Model' – gofynnir i'r Clerc a Cyng Gwenfair Owen i fynychu'r cwrs / *The Community Council needs to produce a Biodiversity document - 'Section 6 Overview of Section 6 Model Report' – the Clerk and Councillor Gwenfair Owen are asked to attend the course.*

### **Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

- Rhestrwyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd am 2026 / *Dates and locations of the meetings for 2026 were listed*
- Soniwyd bod arwydd 'Ildiwch / Give Way' wedi troi ffordd anghywir o Stags Head lawr am Llanio / *It was mentioned that the Give Way sign had been turned the wrong way from Stags Head down towards Llanio.*
- Yn absenoldeb y Cadeirydd, enwebwyd Cyng Beryl Evans i arwain gwasanaeth Sul y Cofio ar ran y Cyngor Cymuned / *In the absence of the Chairman, Councillor Beryl Evans was nominated to lead the Remembrance Sunday service on behalf of the Community Council*
- Mae angen sylw ar y manhole ar ddiwedd lôn Maengwynhall / *Manhole needs attention at the end of Manegwynhall lane.*
- Angen presenoldeb y sweeper yn y Gymuned / *Need the sweeper's presence in the Community*
- Gwaith glanhau'r milwr wedi cychwyn, cwrdd eto dros y penwythnos i lanhau oddi amgylch y milwr / *The work of cleaning the soldier had commenced, meeting again over the weekend to clean around the soldier*
- Drain tu allan i Glynderwen wedi blocio ac angen sylw / *The drain outside Glynderwen is blocked and needs attention*
- Angen Cymorth yr heddlu ynglŷn a ceir sydd yn mynd drwy'r pentref yn rhy gyflym / *Need police assistance regarding cars that are going through the village too fast*

- Miss Elin Mai Williams, Swyddog Datblygu Diwylliant, Cyngor Sir Ceredigion wedi cysylltu am awgrymiadau am ddigwyddiadau fyddai'n hoffi mynychu yn ei rôl newydd fel Swyddog Datblygu, awgrymwyd y canlynol iddi fynychu – Ffair Nadolig YRH; Noson drama; Merched y Wawr, Llwynpiod; Carolau Nadolig CFFI; Gwasanaeth Coffa'r Pentre; neu'r daith gerdded blynyddol 'Camu cyn Calan' / *Miss Elin Mai Williams, Cultural Development Officer, Ceredigion County Council, has contacted regarding events she would like to attend in her new role as Development Officer; it was suggested that she attend the following – Christmas Fair YRH; Drama Night; Merched y Wawr, Llwynpiod; CFFI Christmas Carols; Remembrance Service; or the annual walking tour 'Camu Cyn Calan'*
- Rhestrwyd y canlynol fel digwyddiadau yn ystod y mis nesaf / *The following are listed as events during the next month*
- 07.12.25 – Canu carolau a goleuo'r goeden nadolig yn y pentref am 4.30yh / *Carol singing and lighting the Christmas tree in the village at 4:30 pm*
- 13.12.25 – Sioe Nadolig yn y Neuadd am 7.30yh / *Christmas show in the Hall at 7:30 pm*
- 17.12.25 – Gwasanaeth Nadolig Capel Gwynfil â'r Ysgol Gynradd am 6.30yh / *Christmas Service at Capel Gwynfil with the Primary School at 6:30 pm*

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/Date & location of next meeting**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun 1af o Ragfyr 2025 yn Neuadd Jiwibili Llangeithio am 8 o'r gloch.

*The next meeting will be held at Jiwibili Hall, Llangeitho on Monday 1<sup>st</sup> December 2025 at 8.00 o'clock.*